# PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 4 Chwefror 2016 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Bill Cowie, Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd), Martyn Holland, Rhys Hughes (Is-Gadeirydd), Win Mullen-James, Bob Murray, Anton Sampson, Cefyn Williams a/ac Cheryl Williams.

Y Cynghorydd Alice Jones, Dewi Owens a/ac Arwel Roberts.

## HEFYD YN BRESENNOL

Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd (GW), Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio (AS), Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad (IM), Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd (SP), Cydlynydd Archwilio (RE), Swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru (SC) a (CO) a Swyddog Gweinyddol (CIW).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Brian Blakeley a/ac Peter Arnold Evans.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Aelodau heb ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio Cymunedau a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2015:-

***PENDERFYNWYD*** *- derbyn y Cofnodion a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.*

## 5 DEDDF LLES CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae copi o'r papur briffio ar gyfer Aelodau Archwilio o Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, wedi ei ddosbarthu gyda phapurau'r cyfarfod.

Cynhaliwyd Gweithdy Aelodau i gyflwyno'r eitem fusnes. Cyflwynodd y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio (PGBM) yr adroddiad a oedd yn fyr yn disgrifio materion allweddol yn y ddeddfwriaeth newydd a gafodd effaith benodol ar yr Awdurdod Lleol. Tynnodd sylw at feysydd lle roedd Sir Ddinbych ymhell ar y blaen gyda'i baratoadau ac awgrymwyd ystyried fesul gwasanaeth ar yr amod y ceir cadarnhad y byddai Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn arolygu gweithrediad Sir Ddinbych o'r dyletswyddau o dan y Ddeddf fel rhan o'u Hasesiad Corfforaethol nesaf yn hydref 2016. Roedd yr adroddiad yn cynnwys cofrestr risg a phenderfynwyd ar nifer o argymhellion ar gyfer gwasanaethau. Roedd manylion yn ymwneud â chynigion y Cyngor i gydymffurfio â gofynion y Ddeddf newydd yn cael eu hamlinellu hefyd.

Roedd y papur briffio yn cynnwys y cwestiynau canlynol ac yn tynnu sylw at y meysydd canlynol a gafodd eu crynhoi gan y **PGBM**:-

- Beth yw Deddf?
- Beth yw ein dull a ddymunir i'r Ddeddf?
- Yr amserlen yn cwrdd â gofynion y Ddeddf
- Beth sy'n wahanol o dan y Ddeddf? - Mae manylion am y saith nodau Lles i'w cael yn yr adroddiad.
- Y saith Nodau Lles a'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy o'r Ddeddf – Pump o gwestiynau ac ystyriaethau y byddai angen i'r Awdurdod allu eu hateb er mwyn dangos bod yr Egwyddor wedi'i chymhwyso.
- Y Newyddion Da – beth mae Sir Ddinbych eisoes yn ei wneud a fyddai'n diwallu gofynion y Ddeddf
- Ystyriaethau a awgrymir ar gyfer gwasanaethau unigol fel a baratowyd ar gyfer gweithredu'r Ddeddf
- Effaith ar Reoliad – beth fyddai Rheoleiddwyr yn edrych amdano o ran cynllunio'r Cyngor ar gyfer gweithredu'r Ddeddf
- Yr argymhellion a'r gwaith sy'n cael ei ddatblygu gan Gyngor Sir Ddinbych wrth iddo baratoi ar gyfer gweithredu'r Ddeddf.

Gyda chymorth fideo a Chyflwyniad PowerPoint darparodd y PGBM grynodeb o Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a oedd yn cynnwys y materion canlynol a'r meysydd yn berthnasol i Sir Ddinbych:-

- Pa wahaniaeth bydd y Ddeddf yn ei wneud i gymunedau Sir Ddinbych?
- Gwaith Grŵp
- Rolau Archwilio
- Gwaith Pwyllgorau Archwilio
- Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy
- Ateb Model Archwilio
- Casgliadau

Ffurfiodd Aelodau'r Pwyllgor ddau grŵp i drafod ac ystyried y pum cwestiwn ac ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy, ac effaith y Ddeddf ar yr Awdurdod. Darparodd yr PGBM fanylion o'r atebion enghreifftiol y gallai Aelodau fod wedi eu defnyddio yn ystod eu trafodaeth. Eglurodd fod y Ddeddf yn pwysleisio'r angen i bob corff yn y sector cyhoeddus i newid pwyslais eu cynllunio busnes a darparu gwasanaethau o'r lleol i'r byd-eang, ac o'r tymor byr/canolig i'r

tymor hir, hy 35 mlynedd. Byddai newid sylweddol o'r fath yn gofyn i bob corff cyhoeddus i ail-alinio eu gwaith yn y dyfodol, ac i weithio'n llawer agosach gyda'u gilydd er budd y dinesydd.

Cyflwynwyd y cwestiynau a'r sylwadau canlynol gan yr Aelodau:-

- Nodwyd arferion da yn ymwneud â'r Ddeddf gan yr Aelodau.
- Mae llawer o'r cynigion eisoes wedi derbyn sylw ac yn cael eu gweithredu.
- Mae natur deddfwriaethol y Deddf wedi achosi pryderon.
- Mynegwyd pryderon ynghylch rheolaeth ganolog a roddir i Lywodraeth Cymru.
- Cwestiynwyd lefel y pwerau a gedwir gan y Comisiynydd.
- Cwestiynwyd y gwahaniaeth rhwng "dal i gyfrif" ac archwilio mewn perthynas â chyflwyno darpariaeth gwasanaeth.
- Teimlwyd na ddylid cyfeirio at ddiwylliant a'r iaith Gymraeg a'i bwysleisio yn unig drwy chwaraeon, dylai fod yn rhan annatod o bob nodyn lles.
- Mynegwyd pryderon ynghylch mabwysiadu proses ar gyfer penodi Aelodau o'r Panel Ymgynghori.
- Gofynnwyd am fanylion ar y costau i'r Awdurdod mewn perthynas â'r Comisiynydd a'i weithgareddau cysylltiedig.

Darparodd y swyddogion yr ymatebion canlynol i gwestiynau a materion a godwyd gan yr Aelodau:-

- Ni fyddai pwerau'r Comisiynydd mor rhagnodol a ragwelwyd yn y lle cyntaf, a gallai'r Comisiynydd ymgymryd ag adolygiad o'r ymagwedd at y Ddeddf.
- Byddai archwilio lleol mewn perthynas â'r Ddeddf.
- Byddai'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC) newydd, a fyddai'n disodli'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl), yn destun archwilio, a'u swyddogaethau posibl wedi'u hamlinellu.
- O dan y Ddeddf byddai disgwyl i bwyllgorau archwilio'r awdurdodau lleol i gynnal cyrff cyhoeddus yn gyfrifol yn unol â nodau lles y Ddeddf a'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy;
- Gweithio ar y cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi cael ei gynnal drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol, a byddai yn y pen draw yn cael ei wneud trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn dibynnu ar ganlyniad yr ad-drefnu Llywodraeth Leol;
- Darparwyd rôl yr Awdurdod o ran cydymffurfio â gofynion y Ddeddf, ac ystyriwyd na fyddai unrhyw gostau sylweddol yn ymwneud â staffio i'r Cyngor.
- Ystyriaeth yn cael ei roi gan staff ar bob lefel i weithredu'r Ddeddf, ac ystyried yr angen posibl am newid i fodloni'r gofynion.
- Byddai hyfforddiant ar y Ddeddf a'i gofynion yn cael ei ddarparu yn dilyn penodi Aelodau Etholedig newydd;
- Byddai effaith y Ddeddf ar y broses Cynllunio a'r weithdrefn o wneud penderfyniadau yn ddarostyngedig i'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a gellid ei ddefnyddio fel rhestr wirio.
- Y tair prif elfen yn ymwneud â'r effaith y Ddeddf wedi eu hamlinellu gan y HLHRS. Dywedodd hefyd bod angen mwy o eglurhad gan Lywodraeth Cymru (LlC) ar sut mae gwahanol ddarnau o ddeddfwriaeth ddiweddar yn cydgysylltu;

- Manylion aelodaeth yn ymwneud â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Ddinbych a Chonwy ar y Cyd newydd arfaethedig wedi'u darparu gan y PGBM.

Cyn dod â'r gweithdy i ben fe bwysleisiodd y swyddogion y byddai'r Cyngor angen ystyried yn ei gyfanrwydd sut y byddai'r Ddeddf yn effeithio ar sut y mae'r Awdurdod yn gwneud penderfyniadau, ac effaith hir dymor y penderfyniadau hynny ar drigolion. Gall archwilio yn y dyfodol gymryd i ystyriaeth y 7 nodyn lles wrth benderfynu ei raglen waith i'r dyfodol, ac wrth archwilio testunau i ganolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Tymor hir
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio; a
- Cynnwys preswylwyr/defnyddwyr gwasanaeth

Yn dilyn trafodaeth bellach diolchodd yr Aelodau yr holl swyddogion am egluro gofynion y Ddeddf a'r disgwyliadau ohonynt ac am ateb eu cwestiynau.

## 6 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cafodd copi o adroddiad gan y Cydlynydd Archwilio ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor adolygu a chytuno ar ei raglen waith i'r dyfodol ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol.

Mae copi o'r 'Ffurflen Cynnig Aelodau' wedi'i gynnwys yn Atodiad 2. Roedd Rhaglen Waith i'r Dyfodol y Cabinet wedi'i gynnwys fel Atodiad 3, a thabl yn crynhoi penderfyniadau diweddar y Pwyllgor ac yn rhoi cyngor ar gynnydd â'u gweithredu, wedi eu hatodi yn Atodiad 4.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol drafft ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol, Atodiad 1, a chytunwyd ar y newidiadau a'r ychwanegiadau canlynol:-

24 Mawrth, 2016:- Cytunodd y Pwyllgor gydag awgrym y Cadeirydd, os mai dim ond un eitem sydd i'w ystyried yn y cyfarfod, efallai y bydd gofyniad i gynnal y cyfarfod yn cael ei adolygu.

Cadarnhaodd y Cydlynydd Archwilio fod y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio wedi cyfarfod ar 21 Ionawr, 2016. Yn unol â phenderfyniad diweddar y Grŵp ar y mecanwaith i ddelio gydag adroddiadau cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried canfyddiadau yr astudiaeth genedlaethol ar wasanaethau hamdden a'u goblygiadau ar gyfer Sir Ddinbych. Roedd y Grŵp wedi cytuno bod yr eitem hon yn cael ei chynnwys yn rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor ar gyfer cyfarfod mis Mai, 2016. Fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer y cyfarfod hwnnw, gofynnwyd i'r Aelodau ddarllen adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, 'Cyflawni gyda llai - Gwasanaethau Hamdden'. Pwysleisiodd y Cadeirydd arwyddocâd a phwysigrwydd y Ddeddf mewn perthynas â darparu gwasanaethau yn y dyfodol gan y Cyngor.

Mewn ymateb i gais gan y Cynghorydd W. Mullen-James, cytunodd y Pwyllgor y dylid cynnwys adroddiad dilynol, mewn perthynas â materion torri gwair yn rhaglen gwaith i'r dyfodol y pwyllgor archwilio.  Awgrymodd nifer o Aelodau eitemau busnes posibl i'w cynnwys yn rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor, ac mae'r Cydlynydd Archwilio yn cynnig  eu helpu i lenwi'r Ffurflenni Cynnig Aelodau i'w hystyried gan y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio.  Yr eitemau y cyfeirwyd atynt yn cynnwys: -

- Gwasanaeth Tu Allan i Oriau Swyddfa Meddygon Teulu
- Canolfan newydd Ysgol Uwchradd y Rhyl.

Dywedodd y Cydlynydd Archwilio y gellir cynnwys yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r Nodau Lles yn y ddogfen Briff Gwybodaeth yn y dyfodol gyda'r bwriad o helpu aelodau i ganolbwyntio arnynt wrth drafod pynciau, nes y bydd modd cyflwyno templed adroddiad newydd.  Cytunodd yr Aelodau hefyd eu bod yn cael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf y Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Archwilio.

***PENDERFYNWYD*** *- yn amodol ar y newidiadau a chytundebau uchod, i gymeradwyo'r Rhaglen Waith fel a nodwyd yn Atodiad 1 o'r adroddiad.*

## 7 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Roedd y Cynghorydd M.L. Holland wedi bod yng nghyfarfod y Gweithgor Mynd i'r Afael â Thlodi, a gynhaliwyd ar 3 Chwefror, 2016, lle trafodwyd materion yn ymwneud â thlodi ar draws y Sir.  Hysbysodd y Cynghorydd Holland y Pwyllgor ei fod wedi codi'r mater o gofnodion presenoldeb disgyblion mewn ysgolion.

Roedd y Cynghorydd W.L. Cowie wedi bod mewn cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 22 Ionawr, 2016. Hysbysodd y Cynghorydd Cowie y Pwyllgor fod yr HLHRDS wedi darparu cyflwyniad manwl ar y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru).

***PENDERFYNWYD*** *- bod yr adroddiadau yn cael eu derbyn a'u nodi.*

Daeth y cyfarfod i ben am 11.50pm.